Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Painting & Decorating

## Competition Overview

Painting and Decorating is one of the most in-demand construction trades. A Painter/Decorator must master a wide range of skills and techniques, ranging from house renovations to painting bridges, or maintaining historic buildings. They use a variety of systems to achieve the best results, and apply finishes such as stencils, colour glaze, graining, marbling and lettering.

In this competition, competitors have to complete a specific project designed to challenge their ability to follow detailed instructions, produce accurate and neat work outputs, be economical with materials while working to strict timescales and complying with Health and Safety – all essential requirements for today's construction industry.

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in the Construction Industry and studying towards any level of qualification or apprenticeship within the construction framework.
Entrants must not have previously competed at any national finals.
Please ensure your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of 3 competitors per location plus maximum of 3 reserves can be registered incase of absence. Subject to change after registration closes.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

https://inspiringskills.gov.wales/competitions/frequently-asked-questions

**Task Duration**
5 Hours

## Brief

All competitors are expected to be able to follow drawings, measure accurately, effectively plan their time, demonstrate competence with tools and keep work stations clean and tidy.

Also, they will have to demonstrate the following skills:

- Hand/eye coordination
- Use of different types of materials
- Preparing surfaces
- The use of Frisk

Marks will be awarded based on the following criteria:

- Setting out
- Banding
- Finish
- Precision
- Application of materials
- Cleanliness of workmanship
- Showing awareness of Health & Safety

For more information please refer to Skills Competition Wales Website.

## Infrastructure List

Competitors are expected to bring their own tools. Paste tables, buckets for paste and waste, lint free rags, sponges and paint kettles will be available at the venue.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit :
https://inspiringskills.gov.wales/terms/registrations-terms-and-conditions

**Generic competition rules**

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.

- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Breakdown of marking and assessment.

| | **Criteria** | **Marks** |
|---|---|---|
| A | Setting out measurements | 20% |
| B | Setting out and decorating - stencils | 15% |
| C | Decorating - all circles | 28% |
| D | Wallpaper design | 12% |
| E | Numerals | 15% |
| F | Trade logos | 5% |
| G | Neatness of workmanship | 5% |
| | **Total** | **100%** |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 14th March 2024, where the First, Second and Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023

## Competition Lead

**Lead Contact:**

Lewis Jones
Email address - LJones1@merthyr.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y gystadleuaeth

## Teitl y gystadleuaeth

Paentio ac addurno

## Trosolwg o'r gystadleuaeth

Paentio ac addurno yw un o'r crefftau adeiladu y mae'r mwyaf o alw amdani. Mae'n rhaid i Beintiwr/Addurnwr feistroli amrywiaeth eang o sgiliau a thechnegau, sy'n amrywio o adnewyddu tai i beintio pontydd, neu gynnal a chadw adeiladau hanesyddol. Mae'n defnyddio amrywiaeth o systemau i gyflawni'r canlyniadau gorau, ac yn defnyddio gorffeniadau fel stensiliau, sglein lliw, graenio, marblo a llythrennu.

Yn y gystadleuaeth hon, mae'n rhaid i gystadleuwyr gwblhau prosiect penodol a gynlluniwyd i herio eu gallu i ddilyn cyfarwyddiadau manwl, cynhyrchu gwaith cywir a thaclus, bod yn ddarbodus gyda deunyddiau wrth weithio i amserlenni caeth – gofynion hanfodol ar gyfer y diwydiant adeiladu heddiw. Bydd y cystadleuydd yn cael ei farcio ar Iechyd a Diogelwch.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini prawf mynediad

Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Adeiladu ac yn astudio tuag at unrhyw lefel o gymhwyster neu brentisiaeth o fewn y fframwaith adeiladu. Ni ddylai ymgeiswyr fod wedi cystadlu mewn unrhyw rowndiau terfynol cenedlaethol o'r blaen Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad

Uchafswm o hyd at 3 o bob lleoliad a gellir cofrestru uchafswm o 3 wrth gefn rhag ofn absenoldeb. Yn amodol ar newid ar ôl i gofrestriad ddod i ben

Dyma'r nifer mwyaf o geisiadau a ganiateir gan sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Penderfynir ar hyn yn ôl 'lleoliad' a 'sefydliad'.  Mae 'sefydliad' yn

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael ei gyflogi. I gael rhagor o arweiniad ar y galluoedd hyn, cliciwch yma
https://inspiringskills.gov.wales/competitions/frequently-asked-questions?lang=cy

## Hyd y dasg

5 awr

## Briff

Disgwylir i bob cystadleuydd allu dilyn lluniau, mesur yn gywir, cynllunio eu hamser yn effeithiol, dangos cymhwysedd gydag offer a chadw gorsafoedd gwaith yn lân ac yn daclus.

Hefyd, bydd yn rhaid iddynt ddangos y sgiliau canlynol:

- Cydsymud llaw/llygad
- Defnyddio gwahanol fathau o ddefnyddiau
- Paratoi arwynebau
- Y defnydd o Frisk

Dyfernir marciau yn seiliedig ar y meini prawf canlynol :

- Gosod
- Bandio
- Gorffen
- Manylder
- Defnyddio deunyddiau
- Glendid crefftwaith
- Dangos ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch

## Rhestr seilwaith

Disgwylir i gystadleuwyr ddod â'u hoffer eu hunain. Bydd byrddau pastio, bwcedi ar gyfer past a gwastraff, cadachau heb lint, sbyngau a thegellau paent ar gael yn y lleoliad.

## Rheolau cystadlu

Am y telerau ac amodau mynediad llawn a rheolau cystadlu ewch i:
https://inspiringskills.gov.wales/terms/registrations-terms-and-conditions?lang=cy

## Rheolau cystadlu cyffredinol

- Mae’n rhaid diffodd ffonau symudol yn ystod gweithgareddau cystadlu.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau cystadlu.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau cystadlu at banel beirniadu’r gystadleuaeth.

- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau cystadlu.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd yr amser ar gyfer pob sesiwn cystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylech roi gwybod i'r panel beirniadu ar unwaith am unrhyw fethiant technegol yn eich offer. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac asesu

Caiff y gwaith o farcio a beirniadu'r gystadleuaeth hon ei wneud gan dîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu Ddarparwr Hyfforddiant, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau wedi'u dyrannu i sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad byr o farcio ac asesu.
Mae pob marc yn wrthrychol a byddan nhw'n cael eu dyfarnu gan y beirniaid fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| A | Gosod mesuriadau | 20% |
| B | Gosod ac addurno – stensiliau | 15% |
| C | Addurno – pob cylch | 28% |
| D | Dylunio papur wal | 12% |
| E | Rhifolion | 15% |
| F | Logos masnach | 5% |
| G | Taclusrwydd y gwaith | 5% |
| | Cyfanswm | 100% |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar Unigol a Grŵp yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni roddir canlyniadau na gwobrau ar y diwrnod gan y bydd ansawdd y marcio yn cael ei sicrhau.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ac yn cael ei wahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 14eg Mawrth 2024, lle bydd y Wobrau Cyntaf, Ail a Thrydedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyfleu i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023

Bydd taflenni marciau ar gael i gystadleuwyr ar ôl i'r broses sicrhau ansawdd gael ei chwblhau.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt:**
Lewis Jones
Email address - LJones1@merthyr.ac.uk